

CANU, RHOI A BYW EIN DIOLCH

(Gwasanaeth Diolchgarwch)

Adnodau agoriadol:

'Dewch i mewn i'w byrth â diolch, ac i'w gynteddau â mawl. Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw, oherwydd da yw'r Arglwydd; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.'

Gweddïwn:

Ein Tad caredig a grasol, tywys ni yn y gwasanaeth hwn i sylweddoli mor fawr yw ein dyled i ti, ac mor fawr yw ein hangen am dy drugaredd a'th gariad yn dy Fab Iesu. O Dad, rho inni'r fendith o deimlo'n ddiolchgar i ti, ac i'th addoli yn gywir o'r galon. Er mwyn ein Gwardwr a'n Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn: 64 – *Tydi sy deilwng oll o'm cân*

Llefarydd (dyn):

Unwaith eto yn ein gŵyl ddiolchgarwch, rydym yn cael cyfle i ddiolch i Dduw am ei ofal ohonom ac am ei gariad anfeidrol tuag atom yn Iesu Grist. Wrth gwrs, rydym i ddiolch bob dydd o'r flwyddyn, ond y mae neilltuo diwrnod ac amser penodol yn rhoi cyfle arbennig inni sylweddoli mor fawr yw ein dyled iddo, ac mor fawr yw ein dibyniaeth ar Dduw sydd wedi'n cynnal a'n cadw hyd y foment hon. Ar un adeg, yr oedd bri mawr ar gynnal 'Gŵyl Ddiolchgarwch y Cynhaeaf,' ac roedd rhai ardaloedd yn cynnal gwasanaethau diolchgarwch am wythnos gyfan. Dyma i chi englyn ardderchog gan y bardd o Flaenau Ffestiniog, Robert Jones:

*I'r Duw Mawr a'i dymhorau – y canaf
Yn f'aceniion gorau.
Er i ni ymdrin a hau
Hwn yw awdur y cnydau.*

Y mae byw mewn digonedd a methu teimlo'n ddiolchgar yn sefyllfa drist. Yn aml iawn, y mae'r sawl sy'n gorfod byw ar lai yn fwy diolchgar. Mae i lawnder felly ei beryglon, a'r perygl mwyaf yw bod yn ddiddiolch, ac yn amharod i rannu ac i roi i eraill. Mae'n haws gennym weithiau fod yn gwynfanus nag yn ddiolchgar – cwyno fod y tywydd yn oer, cwyno fod y wraig yn siarad gormod ar y ffôn, neu fod y plant yn cadw gormod o sŵn! Clywsom ddweud ein bod yn cwyno mwy am wythnos o fflwri na diolch am oes o iechyd! Meddai rhywun wrth weddio:

'O Arglwydd, rwyf wedi rhoi llawer o fendithion imi yn ystod fy mywyd. Rho imi un fendith arall. Rho imi'r fendith o deimlo'n ddiolchgar.'

Llefarydd:

Y mae dau air yn yr iaith Saesneg yn swnio'n debyg iawn i'w gilydd, sef *'think'* a *'thank'*, ac yn ôl yr ysgolheigion, mae'r ddau air yn tarddu o'r un gwreiddyn. Wel, onid yw hyn yn awgrymu fod y sawl sy'n ddiolchgar yn feddylgar hefyd? Wrth roi ein meddyliau ar waith y deun i sylweddoli mai dyledwyr ydym – dyledwyr i'n gilydd, dyledwyr i'n teuluoedd, dyledwyr i'n cyd-ddynion ac i gymdeithas, a bod pawb ohonom, pwy bynnag ydym, yn ddyledwyr i Dduw, ffynhonnell pob daioni a phob gras yn Iesu Grist.

Yn y Beibl, y mae cannoedd o adnodau yn ein cymell i ddiolch, ac y mae hyn yn arbennig o wir am Lyfr y Salmau. Meddai rhywun, *'Y mae bron pob cwys yn Llyfr y Salmau wedi ei hau â hadau diolchgarwch!'* Gwelir hyn yn y ganfed Salm, sy'n ein hannog, o'i dechrau i'w diwedd, i roi diolch i'r Arglwydd:

'Dewch i mewn i'w byrth ef â diolch, ac i'w gynteddau â mawl. Diolchwch iddo, a bendithiwch ei enw.'

Ond, meddech chi, sut y gallwn ni ddiolch? I ddechrau, fe allwn *ddweud* diolch. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn cofio'n rhieni yn ein siarsio lawer gwaith pan oeddem yn blant, *'Cofia ddweud diolch.'* Dyma yw rhan o ddisgyblaeth yr aelwyd. Gweithred gwrtais yw dweud diolch, ond mae diolch go iawn yn golygu mwy na geiriau. Mae geiriau yn gallu bod yn rhad ac yn wag iawn ar eu pennau eu hunain.

Felly, yng ngweddill y gwasanaeth hwn, awgrymwn dair ffordd i ddangos ein diolchgarwch i Dduw, sef, canu ein diolch, rhoi ein diolch, a byw ein diolch. Gadewch inni yn gyntaf wrando ar dystiolaeth hyfryd y salmydd ac, yn ail, ar anogaeth yr Apostol Paul inni ymroi i'r bywyd newydd yn Iesu Grist.

Darlleniad: Salm 100
Rhufeiniaid 12: 9–21

Emyn: 116 – *Nef a daear, tir a môr*

Llefarydd:

Yn gyntaf, canu ein diolch, neu fel yr anogir gan y salmydd, yn ôl yr hen gyfieithiad, '*Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear.*'

Yn y cyfieithiad newydd darllenwn, '*Rhowch wrogaeth i'r Arglwydd, yr holl ddaear.*' Yn ddiddorol iawn, mae'r cyfieithiad newydd diweddaraf yn 2004 yn mynd ymhellach na hynny, '*Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r Arglwydd, yr holl ddaear.*' Tybed beth yw eich ymateb i'r alwad i floeddio mewn gorfoledd? Y mae cynulleidfaoedd Pentecostaidd yn llawer mwy allblyg eu hysbryd na llawer o gynulleidfaoedd capeli Cymru heddiw, ac y mae dawnsio a churo dwylo i Dduw yn rhan naturiol o'u haddoliad. Mae'n debyg na fyddem yn teimlo'n gyfforddus iawn yn ymroi i orfoledd o'r fath, ond onid yr hyn sydd gan y salmydd yw ein bod yn rhoi ein holl enaid yn ein moliant i Dduw? Nid oes dim yn fwy digalon na chynulleidfa'n canu'n fflat a dieneiniad. Yn wir, gall canu marwaidd andwyo awyrgylch oedfa yn fawr iawn. Enaid cerddoriaeth yw cerddoriaeth yr enaid.

Tybed a glywsoch am fachgen ifanc yn cael cyfle i ganu organ arbennig mewn Eglwys Gadeiriol am y tro cyntaf? Teimlai'n gynhyrfus ac yn nerfus iawn wrth feddwl am y dasg o'i flaen. Yn wir, nid oedd yn siŵr pa stopiau i'w tynnu ar yr organ, a dywedodd ei ffrind wrtho, '*Os wyt ti ddim yn siŵr pa rai i'w tynnu, wel, tynna'r cwbl lot!*' Cyngor gwael, o bosibl, o safbwynt cerddorol, ond o safbwynt ymroddiad, cyngor ardderchog! Tynnu'r stopiau i gyd!

*'Diolchwn oll i Dduw
Â llaw a llais a chalon,
Cans rhyfeddodau mawr
A wnaeth i ni blant dynion.'*

Wrth gwrs, rydym yn ymwybodol iawn ei bod hi'n anodd i rai bobl lawenhau ac i ganu yn wyneb siom colli iechyd neu hiraeth colli anwyliaid. Mae profedigaethau bywyd yn gallu llethu'r dewraf ohonom a distewi'r gân, ond yr un mor wir yw bod nerth gras i'w gael i'n codi uwchlaw cymylau amser, ac i'n galluogi hyd yn oed i ganu mewn gorthrymderau. Gwyddom nad ystrydeb yw hyn. Yn aml iawn, mae'r bobl hynny sydd wedi profi profedigaethau bywyd yn llawer mwy ystyriol o deimladau pobl eraill, ac yn llawer mwy diolchgar.

Efallai fod rhai ohonom yn teimlo nad oes gennym lais da i ganu. Efallai fod hynny'n wir, ond yr hyn sy'n bwysig yw bod cân o ddiolchgarwch yn ein calon, a'n bod yn rhoi mynegiant i hynny â'n llais, boed ein llais yn hyfryd neu fel arall! Nid ansawdd ein lleisiau sy'n bwysig wrth ganu clod i Dduw ond cywirdeb ein haddoliad a chynhesrwydd ein diolchgarwch iddo.

*'O f'enaid, cân, mawrha yr Arglwydd Dduw,
Bydd lawen ynddo, dy Waredwr yw.'*

Gweddïwn:

Diolchwn i ti, ein Tad, am gyfle'r oedfa hon i ganu caneuon o ddiolchgarwch i ti. Diolch iti am yr emynau hyfryd sydd gennym fel Cymry – emynau hen a newydd sy'n ein helpu i amgyffred dy gariad tuag atom, ac i ddatgan ein diolch a'n clod i ti. Diolchwn hefyd am donau sy'n swynol i'n clustiau, ac am gyfoeth sain organ ac offerynnau cerdd. O Dad, diolchwn fod gennym destun cân yn Iesu Grist, a bod ei gariad ef yn fwy na digon ar gyfer holl anghenion dyfnaf ein bywyd.

*'Ynot, Arglwydd, gorfoleddwn,
Yn dy gariad llawenhawn,
Cariad erys fyth heb ballu
A'i ffynhonnau fyth yn llawn.'*

Diolchwn iti, ein Tad, am bob cymorth a gawsom gan ein rhieni i fynegi ein diolch. Fe'n dysgwyd yn blant i ddweud diolch am bob caredigrwydd a chymwynas. O Dad, dyro inni ostyngeddwydd calon i ddiolch iti yn yr oedfa hon. Diolch iti am dy ddaioni tuag atom yn ein hamgylchynu â bendithion dy greadigaeth, am dy drugaredd tuag atom er inni dy siomi lawer gwaith, ac am dy gariad yn Iesu Grist na allwn ni byth ei fesur na'i amgyffred. O Dad, derbyn ein diolch.

Gwyddom, ein Tad, am ein hangen mawr am dy drugaredd a'th faddeuant. Nid ydym wedi cyflawni dy ofynion sanctaidd drwy dy garu yn ôl dy haeddiant, a charu ein gilydd fel y dylem, na chwaith gyfieithu dy gariad yn weithredoedd da. O Dad, er mwyn Iesu Grist, yn ein hedifeirwch pwyswn ar dy drugaredd, ac ar sail dy addewid ceisiwn dy faddeuant o'r newydd. Gorfoleddwn yn dy iachawdwriaeth, a cheisiwn drwy nerth dy ras, fyw bellach nid i ni ein hunain ond i'r hwn a fu farw drosom ac a atgyfodwyd. Yn enw ein Gwaredwr Iesu Grist, derbyn ein diolch a'n clod. Amen.

Emyn: 245 – *Yr Iesu a deyrnasa'n grwn*

Llefarydd:

Yn ail, rhoi ein diolch, neu fel y dywed y salmydd, *'Rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw, a dygwch offrwm.'*

Mae gwir ddiolchgarwch yn fwy na dweud a chanu ein diolch. Mae gwir ddiolchgarwch yn golygu cyfieithu'n cân o ddiolchgarwch yn rhoddion hael.

Mae gwahaniaeth mawr rhwng cadw yn hunanol a rhoi yn haelionus. Llaw gaeedig sydd gan y person hunanol, ac mae llaw felly yn gallu troi'n ddwrn, ond llaw agored sydd gan y person hael, ac mae llaw felly yn llaw gyfeillgar.

Wrth annog ein gilydd i roi ein diolch, rydym yn cydnabod mai Duw yw'r rhoddwr mawr. Dywedodd merch fach wrth ei ffrind, *'Mae Dad yn cael ei ben blwydd yfory, a rydw i eisiau rhoi anrheg iddo.'* Gofynnodd ei ffrind, *'Gan bwy gei di bres i brynu'r anrheg?'* A'i hateb

parod oedd, *'Gan Dad, wrth gwrs!!'* Onid yw hyn yn wir yn hanes pawb ohonom? Duw yw ffynhonnell pob peth sydd gennym, ac ef yw'r rhoddwr mawr.

Duw yn rhoi. Dyma yw natur cariad Duw. Ef sydd wedi rhoi daear a gwlad yn gartref inni, rhoi teulu a chyfeillion inni, a rhoi anadl o'n mewn, a bwyd a diod i'n cynnal a'n cadw yn fyw. Natur cariad Duw erioed yw rhoi, ac onid hyn yw neges fawr yr Efengyl? *'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab ...'* Dyma, yn ddi-os, y rhoi mwyaf a wnaeth Duw erioed – rhoi ei Fab Iesu Grist inni, a'r Mab yn rhoi ei hunan inni, rhoi ei gyfeillgarwch inni, rhoi ei wasanaeth, a rhoi ei hunan inni hyd angau ar groes. Na, *'ni allaf roddi fel y rhoddaist im ...'* – cymharol yw pob peth. Rhyfeddod mawr y Cristion yw bod Duw wedi rhoi cymaint inni er gwaethaf ein gwrthryfel pechadurus yn ei erbyn. Pobl wedi cael heb haeddu cael ydym – cael trugaredd, cael maddeuant, a chael Iesu yn Gyfaill ac yn Waredwr ein bywyd. Cael y cyfan am ddim, yn rhad – rhad ras!

Pa fodd y dylem ymateb i hyn oll? Yr ateb yw bod yn ddiolchgar ein hysbryd ac yn hael ein calon. Oni ddywed Iesu Grist wrthym, *'Derbyniasoch heb dâl, rhoddwch heb dâl.'* Mae i'r bywyd Cristnogol ei wedd ymarferol – rhoi yn y casgliad, rhoi i achosion da, rhoi amser i ymweld â'r cleifion, rhoi cwmni i'r unig, rhoi cymorth i'r gwan, ac yn y blaen. Gorffennwn gydag anogaeth Paul, *'Beth bynnag yr ydych yn ei wneud ar air neu ar weithred, gwnewch bopeth yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, gan ddiolch i Dduw y Tad drwyddo ef.'*

Gweddïwn:

Diolchwn, ein Tad, am bawb sy'n gwasanaethu eu cyd-ddynion yn enw dy Fab Iesu Grist. Diolchwn am bawb sy'n cynorthwyo'r gwan, yr unig a'r tlawd. Diolchwn am law meddyg a nyrs i estyn meddyginiaethau dy gariad, ac am y rhai sydd wedi dewis byw'n dlawd er mwyn gweini ar y gwael a'r gwan. Clodforwn dy enw am fod tosturi Iesu Grist yng Ngaliilea gynt i'w weld heddiw yng ngwasanaeth y rhai sy'n cyfieithu dy gariad yn gymwynasau hael a da. O Dad, dyro dy fendith ar eu gwaith. Cysura dy blant yn eu gwahanol anghenion, a helpa ninnau i wneud ein rhan i leddfu poen a thristwch bywyd. Gofynnwn hyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn: 819 – *O am awydd cryf i feddu*

Llefarydd:

Yn drydydd, byw ein diolch

Y mae graddfeydd o ddiolchgarwch. Y gris cyntaf yw dweud diolch. Yr ail ris yw canu ein diolch. Y trydydd gris yw rhoi ein diolch, ond y gris uchaf yw byw ein diolch.

*‘Boed fy mywyd oll yn ddiolch,
Dim ond diolch yw fy lle.’*

Mae rhoi ein diolch yn ardderchog, ond mae byw ein diolch yn well. Rhoi ei wasanaeth mae'r person proffesiynol – rhoi amser penodedig i'w feistr bob dydd, ond rhoi ei hunan mae'r Cristion, *‘Fy hunan oll i ti, O Iesu da.’*

Mae anogaeth Paul yn ardderchog: *‘Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi.’* Nid diolch *am* bob peth sydd yma, ond *ym* mhob peth – ym mhob sefyllfa byddwn ddiolchgar. Gwelwyd hyn yn Iesu Grist yn ystod ei weinidogaeth. Pan oedd cynulleidfaoedd yn tyrru i wrando arno yn eiddgar, fe gofiwn iddo gymryd y torthau a phorthi'r pum mil, ond cyn hynny cododd ei olygon at ei Dad nefol, *‘a rhoi diolch.’* Do, fe fynegodd ei ddiolchgarwch i'w Dad nefol pan oedd popeth yn dda, ond cofiwn iddo fod yr un mor ddiolchgar yng nghwmni ei ddisgyblion yn yr oruwchystafell, ac yntau erbyn hynny'n gwybod fod ei groes wrth ymyl. Y noson honno, a Jwdas ar fin ei fradychu, cymerodd Iesu fara *‘a rhoi diolch.’* Yn wir, roedd ei holl fywyd, yn y melys a'r chwerw, yn sacrament o ddiolchgarwch i'w Dad nefol.

Ar ddechrau'r gwasanaeth hwn, fe ddyfynnwyd englyn i'r Wyl Ddiolchgarwch. Gorffennwn gydag englyn R. J. Roberts, Llan Ffestiniog:

Coronwch Ef yn Ben

*'Wedi'r rhodd a'r daer weddi – wedi'r dweud,
Wedi'r dydd o foli
Rhoi mwy nawr yw'n rhwymau ni,
Byw a diolch heb dewi.'* Amen.

Eryn: 212 – *Arnom gweina dwyfol Un*

Y Fendith:

*'Boed fy mywyd oll yn ddiolch,
Dim ond diolch yw fy lle.'*

O Dad, daeth ein hoedfa i ben, ond dyma ddechrau ein gwasanaeth i ti. Cynorthwya ni i fynd oddi yma i estyn dy gariad i eraill, ac i dywys eraill i'r bywyd newydd a llawn yn Iesu Grist. Rho sêl dy fendith ar ein gwaith, a bydd gyda ni yn dy gariad mawr. Er mwyn dy enw. Amen.